**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Mercher, 24 Mai 2023**

**Presennol:** Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Amanda Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, John Roberts a Mark Strong.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Euros Davies, Rhodri Evans a Gareth Lloyd.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorydd Alun Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar; Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal; Audrey Somerton Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Iwan Davies, Rheolwr Corfforaethol: Ymyrraeth Gynnar; Heather West, Rheolwr Corfforaethol: Cymorth wedi'i Dargedu a Gweithredol; Greg Jones, Rheolwr Corfforaethol: Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 11.58am)

1 **Croeso ac Ymddiheuriadau**

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Carl Worrall am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Gwyn James y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar.

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae’n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelodd yr un Aelod o’r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 **Cyflwyno Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oed a Llesiant) y Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru. Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru werthusiad trylwyr o berfformiad y Gwasanaethau Oedolion a’r Gwasanaethau Plant rhwng 27 Chwefror 2023 a 10 Mawrth 2023. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 18 Mai 2023. Yn unol â’r dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, roedd yr arolygiad yn gwerthuso’r meysydd canlynol: Pobl - Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant a Phartneriaeth.

Roedd pum arolygydd yn rhan o’r arolygiad a gynhaliwyd yn rhithiol ac wyneb yn wyneb. Roedd 114 o unigolion yn rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth gan gynnwys y swyddogion, yr Aelodau Etholedig, y defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, sefydliadau statudol a sefydliadau partneriaethol yn y trydydd sector.

Yn ogystal â’r gwaith o archwilio’r ffeiliau achosion, craffwyd ar y prif bolisïau a datblygiadau. Roedd hyn yn cynnwys y ffeiliau gorchwylio, y Polisi diwygiedig ynghylch Canmoliaethau a Chwynion, y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd drafft, yr ymgynghoriad ynghylch Therapi Galwedigaethol a’r strwythurau diwygiedig o ran Diogelu a Llesiant Meddyliol a Phorth Cymorth Cynnar. Arsylwyd ar gyfarfodydd strategol a gweithredol ar-lein ac wyneb yn wyneb. Rhoddwyd pwyslais ar brofiadau’r plant, y gofalwyr a’r teuluoedd a’r modd yr oedd y gwasanaeth yn gwrando ar eu safbwyntiau. Roedd yr Arolygwyr am weld bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yn yr asesiadau a’r cynlluniau a’u bod yn cael y cyfle i gyfathrebu eu gofynion gofal eu hunain. Roedd yr Arolygwyr hefyd yn awyddus i ddeall a gwerthfawrogi buddion y model Llesiant Gydol Oes.

Roedd yr adborth cychwynnol a roddwyd ar 16 Mawrth 2023 yn galonogol iawn, ac roedd yr adroddiad yn canmol y Gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion Ceredigion. Yn ystod yr Arolygiad, ni nodwyd yr un maes lle nad oeddem yn cydymffurfio â’r gofynion. Rhoddwyd trosolwg o'r canfyddiadau a'r dystiolaeth allweddol. Roedd Cynllun Gweithredu bellach wedi’i ffurfio er mwyn ymateb i’r gwelliannau yr oedd Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu hargymell yn yr adroddiad. Roedd mwyafrif helaeth y camau gweithredu eisoes ar waith gan fod y materion a nodwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru eisoes yn cael sylw cyn i’r arolygiad ddechrau.

Llongyfarchwyd yr holl staff sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ar eu perfformiad fel yr amlygwyd yn yr adroddiad.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a’r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd yn anodd cymharu ag awdurdodau lleol eraill oherwydd nifer o ffactorau megis poblogaeth, lefelau staffio, nifer yr achosion a natur wledig. Credai Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal fod y gwasanaeth yn chwarter uchaf Cymru.
- O ystyried yr heriau gyda recriwtio, roedd pob darpariaeth bosibl yn cael ei harchwilio i gadw a recriwtio staff. Roedd cyflogi gweithwyr tramor yn opsiwn a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill i gefnogi sector y Gofal Cymdeithasol ac nid oedd wedi'i ddefnyddio yng Ngheredigion. Amlygwyd y gwahaniaeth mewn diwylliannau ac ieithoedd; felly, roedd angen gofal os oedd bwriad i archwilio'r opsiwn hwn ymhellach.
- Wrth i awdurdodau lleol eraill gynyddu cyflog staff Gofal Cymdeithasol, roedd mwy o gystadleuaeth, ac felly byddai angen adolygu cyflogau yn fuan a fyddai’n arwain at oblygiadau i gyllideb y Cyngor. Mae

Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd cyflog cyfartal ledled Cymru, ond byddai hyn yn heriol yn ariannol hefyd.

- Cydnabuwyd bod dull cymysg o weithredu yng Ngheredigion ar hyn o bryd, gyda chyfuniad o weithwyr y Cyngor a gweithwyr asiantaeth y trydydd sector. Er mwyn lleihau nifer y gweithwyr asiantaeth, nid yn unig yr oedd angen ystyried cyflog ac amodau ond gellid defnyddio adroddiad llwyddiannus gan Arolygiaeth Gofal Cymru fel arf recriwtio.
- Cydnabuwyd bod staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd, ond teimlai swyddogion na fyddai gorfodi staff i fynychu swyddfeydd o reidrwydd yn ddefnyddiol. Yn ystod y misoedd diwethaf, roedd staff wedi dysgu sicrhau cydbwysedd rhwng gweithio gartref ac yn y swyddfa, anogwyd timau i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac roedd staff yn gallu neilltuo desgiau gyda'i gilydd. Byddai'r model gweithio hybrid yn cael ei adolygu ym mis Gorffennaf 2023.
- Roedd adborth prydlon yn hanfodol i asiantaethau partner a byddai'n cael sylw ynghyd â chefnogi asiantaethau partner i ddeall y Model Gydol Oed a Llesiant.
- Mae ymchwil wedi dangos bod pobl wedi troi'n ôl at eu hiaith gyntaf ar adegau o argyfwng. Oherwydd hyn, roedd rhoi hyfforddiant yn lleol yn allweddol i annog rhagor o bobl leol i weithio yn y sector ac aros yn lleol. Ar hyn o bryd, roedd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r Brifysgol Agored i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol ac roedd gwaith yn cael ei wneud gyda Phrifysgol Aberystwyth.
- Roedd y Gwasanaeth yn cael ei fonitro'n gyson ac roeddent yn gweithio mewn hinsawdd lle'r oedd angen gwelliant parhaus. Roedd bod yn dryloyw gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch y meysydd i'w gwella'n bwysig, ac os nad eir i'r afael â nhw, byddai'r meysydd yn dod yn fater gorfodi.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd:

- Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn derbyn y Cynllun Gweithredu drafft, sydd wedi'i lunio i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru, a'i fod yn ystyried bod yr hyn sydd wedi'i gynnwys ynddo yn ymateb cymesur i'r argymhellion yn yr adroddiad.
- Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn monitro'r Cynllun Gweithredu ar ôl chwe mis ac ar ôl blwyddyn er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod y momentwm yn cael ei gynnal hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

**4 Trefniadau Cenedlaethol Mabwysiadu a Maethu**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams adroddiad ar Drefniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu Cymru (awdurdod lleol). Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi bodoli ers 2014 ac mae wedi galluogi newid a gwelliant sylweddol mewn gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Roedd pob cyngor bryd hynny wedi cytuno ar ei strwythur a'i lywodraethiant drwy drefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; arweiniodd adolygiad yn 2018 at gynigion i symleiddio llywodraethiant a gwella atebolrwydd. Mae rhai o'r rhain e.e. creu Bwrdd Llywodraethu Cyfunol (sy'n dod â'r Grŵp Cynghori a'r Bwrdd Llywodraethu

sy’n ofynnol gan y ddeddfwriaeth ynghyd) a Chytundeb Partneriaeth newydd i ddisodli’r model swyddogaethol gwreiddiol eisoes wedi’u rhoi ar waith. Mae sefydlu Maethu Cymru yn rhoi'r cyfle i uno'r trefniadau ar gyfer mabwysiadu a maethu yn un gyfarwyddiaeth yn weithredol a'r llywodraethiant ar gyfer y ddau weithgaredd i'w uno.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a’r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:
- Ystyriwyd bod gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol yn ffordd synhwyrol ymlaen.
- Mae niferoedd mabwysiadu wedi gostwng yn genedlaethol am sawl rheswm. Roedd y gwasanaeth mabwysiadu yng Nghaerfyrddin a swyddogion lleol yn gallu gweithio yn ôl galwadau ac arhosodd y rhan fwyaf o blant Ceredigion a fabwysiadwyd o fewn y rhanbarth oherwydd nifer y mabwysiadwyr a hefyd rhesymau diwylliannol.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau’r Pwyllgor, cytunwyd i
- Ceisio cytundeb bod Ceredigion yn llofnodi Cytundeb y Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.
- Bod y papur hwn yn mynd drwy'r prosesau llywodraethu llawn i'w gymeradwyo'n llawn.

**5 Trosolwg Gofal Cartref**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams adroddiad ar safbwynt y Cyngor a’i ddull gweithredu tuag at Ofal Cartref. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn comisiynu Gofal Cartref i Ddefnyddwyr Gwasanaeth, yr aseswyd bod gofyn iddynt gael gofal o'r fath oherwydd eu bod yn agored i niwed neu oherwydd amgylchiadau eraill, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cefndir statudol i Ofal Cartref, y gwaith a wnaed ledled Cymru i ddatblygu’r gwasanaeth yn genedlaethol a’r sefyllfa’n lleol yng Ngheredigion. Cyfeiriwyd at Fentrau Ceredigion i gefnogi Marchnad y Gofal Cartref o 2022/23 ymlaen a’r sefyllfa bresennol.

Arolygwyd Gwasanaeth Gofal a Galluogi wedi'i Dargedu Cyngor Sir Ceredigion gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Hydref 2022 a chafodd adroddiad rhagorol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, a'r arolygwyr yn cynnig y ganmoliaeth uchaf ar gyfer model y gwasanaeth a'r ddarpariaeth.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a’r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:
- Cydnabuwyd bod gweithlu’r Gofal Cymdeithasol ledled Cymru yn heriol. O fewn yr Addewid 15 Pwynt fel rhan o’r Fframwaith Gofal Cartref newydd 2023, y nod oedd talu cyfradd i bob darparwr gofal cartref a oedd yn fwy cyson â’r gyfradd fesul awr a argymhellir gan y Gymdeithas Gofal Cartref.
- Rhaid i bob darparwr dalu cyflog byw gwirioneddol o dan y ddeddfwriaeth. Roedd y cynnydd mewn ffi i £26.50 yr awr ar gyfer darparwyr yn cydnabod y cynnydd mewn costau byw a thanwydd. Roedd y ffi hon yn cynnwys cyflogau, ychwanegiadau at gyflogau a chostau

hyfforddi. Nodwyd bod gwahanol ddarparwyr yn rheoli costau teithio o eiddo i eiddo yn wahanol a bod mentrau amrywiol wedi'u cynnig i'w cefnogi.

- Byddai cytuno i'r Addewid 15 Pwynt yn dangos ymrwymiad darparwyr i gefnogi'r gweithlu. Awgrymwyd y dylai darparwyr monitro fod yn allweddol wrth symud ymlaen gyda'r Addewid 15 Pwynt. Roedd Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu; byddai hyn yn cynnwys staff ymroddedig a fyddai'n monitro darparwyr yn barhaus, y broses o ddarparu'r contractau ac ansawdd y gwasanaeth.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad, yn amodol ar gael diweddariad i'r Addewid 15 Pwynt ym mis Ebrill 2024.

**6 Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Yn 2018 roedd Llywodraeth Cymru wedi gwahodd cynigion gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i fod yn fraenarwyr *(Pathfinders)* ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Cyflwynwyd cais gan Awdurdodau Lleol Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, i fod yn ardaloedd braenaru. Cafwyd cyllid (2019 - 2024) i beilota a phrofi ffyrdd o Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, a ffurfiwyd Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Ym mis Ionawr 2021, llwyddodd Sir Benfro â'u cais nhw i ymuno â'r Rhaglen Fraenaru ac felly mae pob Awdurdod Lleol ym mhatrwm daearyddol Hywel Dda wedi bod ynghlwm â'r Rhaglen. Yn 2021/ 2022 bu cynrychiolwyr o'r tri Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio i lunio Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru.

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth yn ystod 7 mlynedd gyntaf y plentyn, gan gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd ffurfiannol hyn wrth siapio iechyd a lles y plentyn at y dyfodol. Nod y Strategaeth yw hyrwyddo cydweithio rhwng gwasanaethau cymorth yn y cyfnodau cyn geni a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r strategaeth i'w gweld ar wefan Strategaeth Gorllewin Cymru ar gyfer Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar sy'n ffrwyth cydweithio rhwng awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a phartneriaid trydydd sector. Ar sail ymgynghori helaeth gyda Defnyddwyr Gwasanaethau a Gweithwyr Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar, lluniwyd Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar gyda'r nod o hyrwyddo gwasanaethau rhagorol ar bob cam o Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a'r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd heriau recriwtio yn gyffredinol, ond roedd swyddi gwag naill ai allan i hysbyseb neu wedi'i penodi ym Mhorth Cymorth Cynnar. Pan benodwyd staff, rhoddwyd hyfforddiant yn ôl yr angen i sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir ar gyfer y rôl.

- Pan oedd eitem ar yr agenda yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, argymhellwyd y dylid hysbysu'r Cynghorydd Rhodri Evans fel aelod etholedig y Bwrdd.
- Roedd Gydol Oes a Llesiant, Cymorth a Gofal wrthi'n lansio gwefan newydd a fyddai'n amlinellu'n glir y gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd. Awgrymwyd a chytunwyd y gallai grŵp bach o Aelodau weld y wefan cyn iddi ddod yn fyw, i roi eu barn a'u hadborth.
- Lleolir staff mewn canolfannau teuluoedd ar draws y sir ac ystyriwyd anghenion y cyhoedd wrth baratoi sesiynau; rhannwyd gwybodaeth am y sesiynau hyn yn eang gan gynnwys trwy'r gwefannau cyfryngau cymdeithasol perthnasol.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i gymeradwyo Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

**7 I gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2023.

**Materion sy'n codi:** Eglurwyd bod y Cabinet wedi derbyn yr argymhelliad gan Aelodau'r Pwyllgor i ysgrifennu at Ms Elin Jones, Aelod Etholaeth y Senedd ac at y pedwar Aelod rhanbarthol o Senedd Cymru yn mynegi pryder ynghylch darparu digon o dai yng Ngheredigion. Byddai angen monitro unrhyw ddiweddariadau.

**8 Ystyried Rhaglen Gwaith y Pwyllgor**

Cytunwyd i nodi cynnwys y Flaen Raglen Waith a gyflwynwyd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**_________________